Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gladstone

**Heol yr Eglwys Newydd**
**Y Mynydd Bychan**
**CF14 3JL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gladstone

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gladstone |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 220 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 150 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 47 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 30.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 7.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 61.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/04/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |
| Mae'r ysgol ar ganol gwaith adfer helaeth i adeilad yr ysgol, sy'n cyfyngu'n sylweddol ar ddefnyddio ardaloedd awyr agored yr ysgol. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn ysgol ofalgar a chynhwysol sy’n annog disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd cadarnhaol a bod yn hapus. Mae disgyblion yn mwynhau’r gweithgareddau a’r tasgau sy’n cael eu darparu ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau ac adnoddau i ddysgu’n effeithiol. Mae parodrwydd disgyblion i ddysgu yn ystod gwersi yn dda ac mae hyn oherwydd y berthynas waith fwriadus â’u athrawon ac aelodau staff eraill.

Er bod gwaith adnewyddu helaeth ar yr adeilad yn cyfyngu ar ddefnyddio’r awyr agored, mae’r staff yn cynnig cyfleoedd dysgu buddiol y tu mewn a’r tu allan. Lle mae dysgu yn arbennig o lwyddiannus, mae’r addysgu’n ddifyr a phwrpasol ac mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu ac effaith adborth athrawon ar y camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae’r holl staff yn cynnig lefel uchel o gymorth a gofal i ddisgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu dysgu a’u lles eu hunain. Mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn ac maent yn benderfynol o ddyfalbarhau a dysgu’n llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau llythrennedd a digidol cryf ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i gymhwyso medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a bwriadus. Mae’n benderfynol o lwyddo er lles disgyblion a’r gymuned. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth, staff a’r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth glir. Maent yn cydweithio’n dda â’i gilydd i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy’n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion.

Mae’r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau’n effeithiol ymhlith y staff. Mae hyn yn creu ffocws ysgol-gyfan cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau i fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau’n drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn. Mae’r arferion monitro hyn yn arwain at hyfforddiant gwerthchweil i staff i ddatblygu eu medrau trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio amser dysgu yn effeithiol, ym mhob dosbarth, er mwyn herio disgyblion a chefnogi eu cynnydd

A2 Sicrhau bod athrawon yn gwella darpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion

A3 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Wrth ymuno â'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau sydd islaw'r lefelau disgwyliedig ar gyfer eu hoedran, yn enwedig medrau iaith. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da ac maent yn cyflawni'n dda yn eu gwaith mathemateg ac wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Ym mhob dosbarth, mae disgyblion y mae angen cymorth arnynt yn manteisio ar bob un o feysydd y cwricwlwm yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u mannau cychwyn.

Gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd da wrth siarad a gwrando ac maent yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd ac ag oedolion. Wrth iddynt symud o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau'n hyderus wrth drafod tasgau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn creu negeseuon digidol mewn parau i ddiolch i'r llyfrgell leol am hwyluso eu hymweliad diweddar. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn defnyddio ystod dda o eirfa ac ymadroddion mewn cyd-destunau priodol. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion ac yn barod i gyfrannu i drafodaethau, er enghraifft wrth fyfyrio ar ddifrod Blits Caerdydd ym 1941.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen buddiol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau'n gyflym ac, erbyn Blwyddyn 2, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn rhoi cynnig ar eiriau anghyfarwydd trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn fwriadus ac yn defnyddio eu medrau'n dda wrth ddefnyddio amrywiaeth o destunau gwahanol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, maent yn gwerthuso'n synhwyrol sut y goroesodd Virginia Hall fel ysbïwr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol fel ysgrifenwyr. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi a gramadeg yn gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio gwahanol fathau o dai yn yr ardal leol. Wrth i ddisgyblion symud o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n fwy annibynnol mewn ystod ehangach o ffurfiau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn sgriptio cyfarwyddiadau manwl cyn ffilmio sut i greu ysgytfrwyth. Mae llawer o ddisgyblion yn golygu eu gwaith yn feddylgar ac yn defnyddio geirfa fwy soffistigedig i wella eu drafftiau terfynol. Mae eu darnau gwaith terfynol o safon dda, yn gyffredinol, sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnânt o'u mannau cychwyn unigol.

Wrth siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu geirfa addas ac yn ymateb yn briodol i orchmynion a chyfarchion. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion sylfaenol yn hyderus, er enghraifft i fynegi eu teimladau neu wrth drafod y tywydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn galw strwythurau brawddegau a geirfa berthnasol i gof yn briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llefaredd Cymraeg boddhaol.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio egwyddorion mathemategol yn dda. Maent yn defnyddio rhifau'n hyderus, yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi eu canlyniadau mewn tablau a graffiau syml. Er enghraifft, maent yn creu siartiau cyfrif a graffiau bar am eu hoff anifeiliaid. Maent hefyd yn mesur hyd a lled lluniau eirth gwynion o feintiau gwahanol â phren mesur ac yn arbrofi â chynhwysedd wrth lenwi cynwysyddion o feintiau gwahanol â thywod.

O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau mathemategol cadarn. Mae disgyblion hŷn yn datblygu strategaethau effeithiol i luosi rhifau degol. Maent yn defnyddio data'n briodol ac yn ei gyflwyno'n effeithiol mewn ffurfiau amrywiol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio graffiau llinell i gymharu ystod o dymereddau eithafol yn ymwneud â thrychinebau ledled y byd. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson mewn sefyllfaoedd go iawn.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau digidol da, y maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn rhaglennu robotiaid i deithio o un anifail fferm i'r llall ar grid ac, ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn creu cyflwyniadau effeithiol ar wragedd Harri VIII. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn trin testun yn effeithiol, er enghraifft dylunio ffeiliau ffeithiau ar gynefinoedd mynyddig anifeiliaid a chreu ffilmiau sgript-i'r-sgrin wedi'u seilio ar gymeriadau Shakespeare. Ar ben hynny, mae llawer o ddisgyblion yn llenwi cronfeydd data a thaenlenni'n effeithiol, er enghraifft i gofnodi faint o arian maent yn ei wario ar offer electronig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau artistig a chreadigol da. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn chwarae rôl yn hapus yn y gegin fwd ac yn chwarae offerynnau cerdd ar lwyfan o'u gwirfodd. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn achub ar gyfleoedd i arbrofi'n greadigol, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 5 yn creu dawnsiau roc a rôl o'r 1950au. Ym mhob dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl effeithiol. Maent yn defnyddio strategaethau pwrpasol i gyflawni tasgau'n llwyddiannus, er enghraifft pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn cydweithio ar dasgau menter i wella cyfleusterau mewn baddonau Rhufeinig.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn gryf iawn. Mae hyn yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu a datblygu'n gyfranwyr hyderus i fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yn ei hethos cynhwysol a gofalgar. Teimlant fod oedolion yn yr ysgol yn gwrando'n ofalus ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried wrth feddwl am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais ac yn groesawgar tuag at oedolion ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal ac ystyriaeth tuag at ei gilydd yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn arwain Senedd Gladstone a grwpiau llais y disgybl yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt i reoli eu hemosiynau yn elwa ar y gefnogaeth effeithiol a gânt gan staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr galluog ac uchelgeisiol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, maent yn dangos lefelau da o ddiddordeb yn eu gwaith ac yn siarad yn frwdfrydig am fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau a pharau ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol i drafodaethau dosbarth. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn dangos lefel dda o barch tuag at gyfraniadau pobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau i gefnogi eu lles emosiynol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn trafod ac yn esbonio'n synhwyrol sut i fynd i'r afael â thasgau anodd a sut maent yn adeiladu gwydnwch wrth ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu medrau annibynnol effeithiol mewn gweithgareddau, fel helpu yn ystod amser byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol, gwybodus. Maent yn ymdrin â phobl eraill yn deg ac yn ofalgar ac yn dangos gwybodaeth dda iawn am hawliau plant. Er enghraifft, mae grwpiau llais y disgybl, fel yr 'Eco-Ninjas', yn gwneud penderfyniadau ystyrlon am deithio llesol i'r ysgol a chasglu sbwriel yn y gymuned. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd eu cyfraniadau tuag at greu cymdeithas ofalgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i gymryd rhan a mynegi safbwyntiau dychmygus wrth gynnig syniadau am gwricwlwm yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn frwdfrydig am eu gwersi ac mae pob un o'r disgyblion yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau a'u syniadau ar gridiau dosbarth cyn dechrau eu testunau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac mae grwpiau llais y disgybl yn gynhwysol iawn. Mae eu cynrychiolwyr yn dangos ystod o fedrau arweinyddiaeth da. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol ac mae cynrychiolwyr yn falch o'u cyfraniadau gwerthfawr. Mae hyn yn cynnwys arwain gwasanaethau ysgol gyfan ar faterion sy'n bwysig iddynt, fel cynaliadwyedd ac arbed ynni.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau entrepreneuraidd a medrau datrys problemau effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol bob blwyddyn i wneud a gwerthu nwyddau ar gyfer y ffair ysgol. Mae grwpiau llais y disgybl yn cyfrannu'n sylweddol trwy fenter gymdeithasol. Er enghraifft, mae'r grŵp cymunedol yn arwain yr ysgol yn effeithiol i godi arian ar gyfer ystod o elusennau, gan gynnwys apêl Arglwydd Faer Caerdydd. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o bryderon cymdeithasol a byd-eang.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn deall buddion ymarfer corff i'w hiechyd, fel cymryd rhan mewn tasgau corfforol dyddiol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gadarn am bwysigrwydd lles corfforol a meddyliol da. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a Chlwb Criced Morgannwg yn esbonio pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall yr angen i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys pwysigrwydd defnyddio cyfrineiriau'n ddiogel. Mewn trafodaethau, mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i rannu beth maent yn ei ddysgu am e-ddiogelwch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u medrau bywyd yn gyffredinol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n dda â'i gilydd i greu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae pob un o'r ystafelloedd dosbarth yn cynnwys arddangosiadau o ansawdd uchel i helpu disgyblion ganolbwyntio ar eu dysgu. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a'r amgylchedd ffisegol yn fwriadus i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio dosbarth awyr agored yn effeithiol, sy'n galluogi disgyblion i fanteisio ar ddysgu yn yr awyr agored yn ystod cyfnodau o dywydd garw.

Mae cynllunio athrawon yn annog disgyblion i fyfyrio ar faterion byd-eang yn effeithiol, er enghraifft trwy gymryd rhan yn y Diwrnod Golchi Dwylo Byd-eang a chodi arian ar gyfer elusennau rhyngwladol. Mae athrawon yn caniatáu i ddisgyblion ddewis elusennau a roddodd gymorth iddyn nhw a'u teuluoedd wedi iddynt gyrraedd Cymru, sy'n hyrwyddo cynhwysiant yn dda. Er enghraifft, arweiniodd cyfranogiad disgyblion ym Mis Rhyngwladol Cerdded i'r Ysgol atynt yn trefnu menter 'Teithio Llesol'. Arweiniodd hyn at yr 'Eco-Ninjas' yn gwobrwyo disgyblion â bathodynnau 'Waw' am gerdded i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n cyd-fynd ag athroniaeth a diben y Cwricwlwm i Gymru. Mae cynllunio athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hymchwiliadau eu hunain yn gysylltiedig â'u prosiectau mewn modd arloesol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r senotaff lleol i ymchwilio i wybodaeth a llenwi cronfa ddata am filwyr lleol a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio â'i gilydd ac adolygu eu dysgu'n synhwyrol. Mae staff yn defnyddio adnoddau'r cwricwlwm yn effeithiol i ddarparu cymorth wedi'i bersonoli i ddisgyblion bregus, fel y rhai y mae materion cymdeithasol a thrawma yn effeithio arnynt. Mae staff yn arwain grŵp lles emosiynol hynod effeithiol ac mae eu llwyddiant wrth ddatblygu medrau disgyblion bregus yn un o gryfderau darpariaeth yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am hanes pobl Dduon yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 3 yn dysgu am Betty Campbell a'i rôl mewn datblygu amrywiaeth a chynhwysiant mewn ysgolion yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar werthoedd disgyblion a'u hagweddau tuag at ei gilydd.

Mae athrawon a staff cymorth yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cryf yn eu medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu mewn ffyrdd dychmygus. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, maent yn dramateiddio cerdd o'r Ail Ryfel Byd ac yn ei recordio gan ddefnyddio cefndir sgrin werdd. Mae athrawon yn cymell disgyblion yn dda i gymhwyso eu medrau digidol yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau, fel

tasgau codio ac archwilio cronfeydd data a thaenlenni. Fodd bynnag, mae darpariaeth i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn anghyson ac mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion o ran datblygu a defnyddio'r medrau pwysig hyn.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymweld â mannau o ddiddordeb diwylliannol lleol, fel Amgueddfa Werin Cymru, i astudio datblygiad cartrefi Cymreig ar hyd yr oesoedd. Mae darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn briodol. Mae'r staff yn modelu ystod addas o gyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn Gymraeg ac mae effaith hyn ar fedrau llefaredd Cymraeg disgyblion yn foddhaol.

Mae addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gref ac maent yn esbonio syniadau'n eglur. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael mewn gwersi i symud dysgu disgyblion yn ei flaen. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar weithgareddau lefel isel nad ydynt yn cefnogi eu cynnydd yn ddigon da. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau ffisegol yn effeithiol i gefnogi a herio disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu tyrrau uchel a phontydd â bocsys cardbord ac yn defnyddio offer anturus yn yr awyr agored yn frwdfrydig.

Mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn cynnig cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ymateb yn dda i gyfleoedd i fyfyrio ar ddiwedd prosiectau. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon yn anghyson. Lle mae'n effeithiol, mae disgyblion yn glir ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud a sut i wella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth yn dda i gynorthwyo disgyblion. Lle mae adborth yn llai effeithiol, nid yw athrawon yn esbonio'n ddigon da beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni a gofalwyr yn rhoi gwybodaeth fanwl am gynnydd eu plant a'u hagweddau at ddysgu. Maent hefyd yn cynnwys targedau defnyddiol i amlygu'r camau dysgu nesaf i ddisgyblion unigol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar dros ben ac mae'r staff yn annog disgyblion i arddel a chyfrannu at ei hethos cefnogol a chyfeillgar. Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae athrawon a staff cymorth yn gwybod sut i gynorthwyo unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol ac maent yn ymateb yn sensitif i anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Maent yn defnyddio strategaethau pwrpasol a thechnegau cydweithio i greu amgylchedd cadarnhaol o gwmpas yr ysgol sy'n gwella iechyd corfforol a hapusrwydd disgyblion. Mae'r ethos cefnogol a chynnes hwn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ymgartrefu'n rhwydd ym mywyd yr ysgol ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at eu lles. Mae arferion meddylgar staff, sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cymell disgyblion i ddatblygu agweddau gwydn tuag at eu dysgu.

Mae darpariaeth i ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY yn drwyadl. Mae cydlynydd ADY yr ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag aelodau staff i sicrhau y caiff unigolion a grwpiau o ddisgyblion eu nodi, eu holrhain a'u cefnogi o oed cynnar. Mae adolygiadau cynhwysfawr o gynnydd disgyblion yn arwain at aelodau staff yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn rhyngweithio'n fuddiol ag ystod o wasanaethau arbenigol i sicrhau adnoddau ychwanegol, amserol a chynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion academaidd, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau y gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd wedi'u targedu gynnydd da mewn perthynas â'u galluoedd.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion o bob cefndir a gallu i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn effeithiol ar amrywiaeth o grwpiau pwrpasol. Mae'r ddarpariaeth hon yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd dod yn ddinasyddion gweithgar yng nghymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn meithrin cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr digidol yn cynghori disgyblion eraill mewn gwasanaethau ar bwysigrwydd diogelwch ar-lein. Mae llais gweithredol y disgybl yn yr ysgol yn galluogi disgyblion i ddeall bod ganddynt hawliau fel plant ac y gall eu gweithredoedd, fel rhoi 'blychau pryder' mewn dosbarthiadau, wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o gyfleoedd sy'n helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, fel rhan o ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mae disgyblion yn gwneud llwyau caru traddodiadol o glai. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau ar draddodiadau Cymreig yn effeithiol yn dda, fel cadeirio'r bardd fel rhan o ddathliadau'r Eisteddfod. Mae disgyblion hŷn yn astudio eiconau chwaraeon cyfoes o Gymru, fel y seiclwr Geraint Thomas, ac mae murlun eu prosiect cymunedol yn addurno'r trac seiclo lleol. Mae'r math hwn o ddarpariaeth effeithiol yn annog disgyblion i ymgysylltu â bywyd yr ysgol o'u gwirfodd ac i deimlo'n falch o ethos teuluol yr ysgol a'i rôl bwysig yn y gymuned.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o ymweliadau ac ymwelwyr sy'n ategu'r cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys astudio artistiaid lleol o Gymru ac astudio marchogion a dreigiau chwedlonol yng Nghastell Caerdydd. Mae'r profiadau effeithiol hyn yn darparu profiadau amrywiol mewn agweddau gwahanol ar hanes Cymru a'r celfyddydau i ddatblygu dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion yn dda.

Mae staff yn galluogi disgyblion i gyfrannu'n gryf at fywyd eu cymuned. Maent yn defnyddio'r profiadau'n gadarnhaol fel y gall disgyblion ddatblygu parch tuag at eu milltir sgwâr ac fel eu bod yn deall ei fod yn bwysig gofalu am bobl leol. Er enghraifft, mae'r disgyblion iau yn ymweld â'r llyn ym Mharc y Rhath a glan y môr ar Ynys y Barri i ddysgu am y tymhorau, diogelwch y dŵr a phwysigrwydd gofalu am fywyd gwyllt. Mae'r ysgol hefyd yn annog disgyblion i gefnogi banc bwyd lleol trwy gasglu rhoddion o'r gymuned ar gyfer eu gwasanaeth diolchgarwch. Hefyd, ar ôl ymweliad i'r ysgol gan gynrychiolwyr o'r hosbis lleol, ymwelodd disgyblion hŷn â'i ganolfan ofal i rannu eu gwaith ar lechi electronig a chymryd rhan mewn sesiynau ioga â'r cleifion.

Mae'r holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu'n gadarn at ddiogelwch a lles disgyblion. Maent yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn

elfennau amlwg o fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn ymwreiddio diwylliant o brosesau diogelu bwriadus ymhlith yr holl staff ac mae'r arferion hyn yn rhan annatod o'u cyfrifoldebau dyddiol. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Yn ogystal â hyn, mae gan yr ysgol systemau priodol i fonitro a gwella presenoldeb. Ar ôl y pandemig, mae gostyngodd cyfraddau presenoldeb yn sylweddol. Fodd bynnag, mae camau diweddar a gymerwyd gan yr ysgol wedi arwain at welliannau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gweithio'n gydwybodol â'r uwch dîm arweinyddiaeth, staff, disgyblion a rhieni i ddatblygu cydweledigaeth a dyheadau cryf ar gyfer yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio ei arwyddair, 'Gofalu, Rhannu a Dysgu gyda'n Gilydd' yn llwyddiannus i sbarduno gwelliannau i arferion yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arwain yn ysgol yn fwriadus ac yn sicrhau bod yr holl staff yn canolbwyntio ar ddatblygu amgylchedd gofalgar a chynhwysol, lle mae'r holl ddisgyblion ac oedolion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Mae'n annog ymddygiad a gwerthoedd a fydd yn cefnogi disgyblion yn hwyrach mewn bywyd, fel parch, caredigrwydd ac uchelgais. O ganlyniad, mae perthnasoedd ar draws yr ysgol yn gadarnhaol ac mae ymrwymiad ar y cyd ymhlith staff i wella darpariaeth a dysgu ar draws yr ysgol.

Mae gan staff gyfrifoldebau clir ac maent yn teimlo eu bod yn rhan bwysig o gynllunio datblygiad yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio mewn timau penodedig i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth wrth ddylunio cwricwlwm cyffredinol yr ysgol. Maent hefyd yn defnyddio strategaethau gwahanol yn dda i werthuso cynnydd disgyblion yn unol ag anghenion yr ysgol, fel olrhain cyflawniadau disgyblion o un dosbarth i'r llall.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o weithgareddau monitro pwrpasol i werthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn casglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol i lywio eu barn am yr ysgol yn systematig. Maent rhain yn cynnwys safbwyntiau disgyblion a rhieni a dadansoddiadau o ddata ar gynnydd disgyblion, fel data gwaelodlin gwahanol wrth i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau o'r prosesau hunanwerthuso ac yn ystyried ffactorau allanol, fel y pandemig, i ddatblygu cynllun gwella'r ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, mae canfyddiadau monitro arweinwyr yn arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i staff wella agweddau ar eu haddysgu, fel cynllunio testunau'n seiliedig ar ddiddordebau disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Maent yn ymgymryd â'u rolau'n fwriadus, er enghraifft er mwyn sicrhau trylwyredd wrth weithredu arferion diogelu, atebolrwydd ariannol priodol ac asesiadau risg effeithiol yn ystod gwaith adeiladu helaeth yn yr ysgol. Maent yn ddiwyd wrth sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau cenedlaethol, fel diwygio ADY. Caiff llywodraethwyr cyswllt eu penodi i bob maes o'r cwricwlwm a chyfrifoldebau dynodedig ac maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn cydnabod heriau sylweddol yr ysgol o ran datblygu caffaeliad iaith disgyblion ac yn cefnogi'r targedau i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion fel blaenoriaeth bwysig.

Mae gan lywodraethwyr ddarlun manwl a chynhwysfawr o'r ysgol a geir trwy ymweliadau uniongyrchol, siarad â disgyblion, trafodaethau rheolaidd â'r staff ac adroddiadau addysgiadol gan y pennaeth. Maent yn cysylltu'n agos ag uwch arweinwyr er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn cyfrannu awgrymiadau cadarnhaol a chytbwys er mwyn symud yr ysgol ymlaen.

Gwna arweinwyr a staff gynnydd da o ran eu nod i gynnal defnydd disgyblion o dir yr ysgol, yn enwedig ymhlith y plant iau, yn ystod y gwaith helaeth i adnewyddu adeilad yr ysgol. Maent wedi mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â hygyrchedd hyd eithaf eu gallu, sydd wedi caniatáu cyfleoedd i ddisgyblion ddewis ble a sut i ddysgu yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dysgu i arbrofi â sosbenni wrth greu synnau cryf a synnau tawel. Mae disgyblion hŷn hefyd yn defnyddio technolegau'n effeithiol i ffilmio o gwmpas tir yr ysgol wrth ddysgu am ddiwylliant Cymru.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill a phartneriaid allanol, er enghraifft i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm a'i weithredu. Mae trefniadau i hyrwyddo datblygiad proffesiynol i'r holl staff yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant buddiol i gefnogi cynorthwywyr addysgu i weithredu strategaethau ymyrraeth.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth dda am ddatblygiadau ysgol, er enghraifft trwy ddefnyddio cylchlythyron rheolaidd, ap yr ysgol a thrwy bresenoldeb staff yn ystod amseroedd gollwng a chasglu'r plant. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo bod yr ysgol yn amgylchedd teuluol diogel a gofalgar. Mae rhieni'n cydweithio'n dda â'i gilydd i gefnogi rhieni newydd y mae angen cefnogaeth arnynt ag iaith wrth iddynt gyrraedd Cymru. Maent hefyd yn gwerthfawrogi pa mor gyflym mae arweinwyr a staff yn ymateb i'w pryderon, ac mae hyn yn nodwedd gadarnhaol yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel buddsoddi cysgodfan ddysgu yn yr awyr agored. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau i'r ystafelloedd dosbarth yn effeithiol ac yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i ddarparu ymyriadau penodol ar draws yr ysgol, fel sesiynau anogaeth emosiynol i ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023